Hysbysiad Preifatrwydd ASA

Pwy ydyn ni

Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch ('ASA', 'ni' neu 'ein') yn casglu ac yn prosesu eich gwybodaeth bersonol yn unol â'r hysbysiad preifatrwydd hwn ac yn unol â'r rheoliad a'r deddfau diogelu data perthnasol. Mae'r hysbysiad hwn yn rhoi gwybodaeth i chi ynglŷn â'ch hawliau a'n rhwymedigaethau, ac yn egluro sut, pam a phryd rydym yn prosesu'ch data personol.

Mae swyddfa gofrestredig ASA yn Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB ac rydym yn gwmni sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr o dan rif cwmni 03344784. Rydym hefyd yn elusen sydd wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr â'r rhif Elusen 1062746 ac yn yr Alban â'r rhif Elusen SC037786. Rydym yn gweithredu fel rheolwr data a / neu brosesydd data wrth brosesu eich data. Mae Ysgrifennydd ein Cwmni yn gyfrifol am oruchwylio cydymffurfiad â rheolau Diogelu Data yn ASA, a gellir cysylltu ag ef yn governance@qaa.ac.uk

Y wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu

Mae ASA yn prosesu gwybodaeth bersonol i fodloni ein rhwymedigaethau cyfreithiol, rheoliadol, statudol a chytundebol ac i ddarparu gwybodaeth i chi, naill ai am ein cynhyrchion a'n gwasanaethau neu am faterion sydd o fudd i'r cyhoedd. Ni fyddwn byth yn casglu unrhyw ddata personol diangen gennych, ac ni fyddwn yn prosesu gwybodaeth amdanoch mewn unrhyw ffordd heblaw fel y nodir yn yr hysbysiad hwn heb ddweud wrthych yn gyntaf.

Mae ASA yn casglu gwybodaeth bersonol gan y canlynol:

Ymwelwyr â'n gwefannau

- ymwelwyr â'n gwefannau, sy'n cynnwys:
  - qaa.ac.uk.
  - heer.qaa.ac.uk
  - accesstohe.ac.uk
  - enhancementthemes.ac.uk
  - Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (TEF) ac Allrwyd yr Adolygwyr

Ymholwyr, ymwelwyr ac ymatebwyr i arolygon

- pobl sy'n e-bostio ASA neu'n defnyddio ein ffurflenni i gysylltu â ni
- pobl sy'n ffonio ASA
- pobl sy'n cysylltu ag ASA drwy'r cyfryngau cymdeithasol
- pobl sy'n ymateb i arolwg neu ymgynghoriad gan ASA
- ymwelwyr â'n swyddfeydd

Pobl sy'n arfer hawl statudol

- pobl sy'n cysylltu ag ASA mewn perthynas â chais am fynediad at bwnc sy'n destun diogelu data
- pobl sy'n cysylltu ag ASA ynghylch prosesu eu data personol
- pobl yn cwyno am ASA

Ein Cwsmeriaid

- pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau neu'n mynychu digwyddiad ASA
- Aelodau ASA
- tanysgrifwyr i Newyddion ASA, Cylchlythyr Gwella Ansawdd neu ymgyrchoedd marchnata eraill
- pobl sydd wedi rhoi eu caniatâd i ni gysylltu â nhw gyda gwybodaeth a diweddariadau

Ein Cydweithwyr

- ein gweithwyr cyflogedig
- aelodau ein byrddau a'n pwyllgorau
- contractwyr
- gwirfoddolwyr
- pobl sy'n gwneud cais i weithio gyda ni
- aelodau o weithgorau ASA

Rydym hefyd yn casglu data personol i'n galluogi i gyflawni ein dyletswyddau statudol neu reoliadol neu gyfrifoldebau eraill. Gall hyn gynnwys data personol am:

- pobl yn cyflwyno Pryderon ynghylch darparwyr addysg uwch
- pobl sy'n gweithio tuag at gymwysterau DPP a gynigir gan ASA
- staff, llywodraethwyr, aelodau cysylltiol, myfyrwyr ac arholwyr allanol mewn darparwyr addysg uwch yr ydym yn eu hadolygu
- Dysgwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer Diploma Mynediad i Addysg Uwch

Sut byddwn ni'n defnyddio'ch data personol

Mae ASA yn cymryd eich preifatrwydd o ddifrif ac ni fydd byth yn datgelu, rhannu na gwerthu eich data heb yn wybod ichi; oni bai ei bod yn ofynnol i ni wneud hynny dan y gyfraith. Rydym ond yn cadw'ch data cyhyd ag y bo angen ac ar gyfer y diben(ion) a ddisgrifir yn benodol yn yr hysbysiad hwn. Lle rydych chi wedi cydsynio i ni eich darparu â chynigion hyrwyddo a marchnata, mae gennych hawl i dynnu'r caniatâd hwn yn ôl ar unrhyw adeg. Mae manylion ynghylch y dibenion a'r rhesymau dros brosesu'ch data personol isod:

Ymholwyr, ymwelwyr, ymatebwyr i arolygon a phobl sydd â buddion	
Diben y prosesu	Er mwyn ymateb i ymholiadau gan y cyhoedd, darparu gwasanaethau, darparu sail i'n cynhyrchion a'n gwasanaethau a sicrhau diogelwch ein hymwelwyr.
Sail gyfreithiol y prosesu	**GDPR Erthygl 6(1)(f)** buddiannau cyfreithlon Mae prosesu'n angenrheidiol at ddibenion darparu gwybodaeth i'r cyhoedd; ymateb i ymholiadau gan unigolion; cofnodi'r ymatebion hyn; darparu gwybodaeth a chyngor cyson a chywir; sicrhau diogelwch personol unigolion sy'n mynychu ein hadeilad.
Categorïau o ddata personol a gesglir neu a brosesir	Enw Teitl eich swydd Cyfeiriad e-bost personol Cyfeiriad personol (gohebiaeth) Cyflogwr Rhif ffôn E-bost busnes Rhif cofrestru'r car (ymwelwyr) Prawf adnabyddiaeth ar gyfer ceisiadau am fynediad at bwnc Data personol mae testun data'n ei anfon at QAA wrth wneud ymholiad.

Unrhyw unigolyn neu gategorïau o unigolion sy'n derbyn y data personol	Nid ydym yn rhannu manylion personol ymholwyr. Bydd manylion personol y rhai sy'n ymateb i arolygon yn cael eu prosesu gan ddarparwr y feddalwedd ar gyfer yr arolwg a ddefnyddir i gasglu eu hymatebion. Rydym yn sicrhau bod y cytundebau sydd gennym ar waith gyda phroseswyr o'r fath yn cynnwys darpariaethau digonol ar gyfer diogelu eich gwybodaeth bersonol, a / neu fod eich data personol yn cael ei brosesu yn unol â'n cyfarwyddiadau ysgrifenedig yn unig, a gallwch ofyn i ni am gael gweld y rhain ar unrhyw adeg. Mae ASA yn defnyddio *Mailchimp* i gynnal cyfathrebiadau drwy e-bost, a bydd yn rhannu cyfeiriadau e-bost y derbynwyr gyda *Mailchimp*. Byddwn yn rhannu manylion ymwelwyr â'r darparwyr gwasanaethau diogelwch / derbynfa yn ein swyddfeydd. Os ydych wedi rhoi eich caniatâd i ni, byddwn yn rhannu eich manylion cyswllt gyda'n his-gwmni masnachu, *QAA Enterprises Ltd.*
Manylion trosglwyddiadau i drydedd gwlad a mesurau diogelwch	Rydym yn **cyfathrebu drwy e-bost** gan ddefnyddio *Mailchimp*, gwasanaeth a ddarperir gan *The Rocket Science Group LLC*, cwmni wedi'i leoli yn Unol Daleithiau America. Pan fyddwch chi'n cofrestru i dderbyn Newyddion ASA neu ein Cylchlythyr Gwella Ansawdd, mae'n bosibl y trosglwyddir eich manylion cyswllt i *Mailchimp* yn UDA. Darllenwch Telerau preifatrwydd Mailchimp.
Ffynhonnell y data personol	Wedi'i ddarparu gan destun y data neu eu cynrychiolydd awdurdodedig
Cyfnod cadw	Data personol ymholwyr - yn ddienw ddeuddeng mis ar ôl cau'r ymholiad - cedwir manylion yr ymholiad. Pob gwybodaeth arall - 3 blynedd
P'un a yw darparu data personol yn rhan o ofyniad neu rwymedigaeth statudol neu gytundebol, a deilliannau posibl yn sgil methu â darparu'r data personol	Gall darparu gwybodaeth bersonol fod yn rhan o ofyniad cytundebol, os ydych chi'n ymweld â'n swyddfeydd ar ran cyflenwr. Gall darparu gwybodaeth bersonol hefyd fod yn ofyniad statudol, gan y bydd yn ein galluogi i gyflawni ein dyletswyddau iechyd a diogelwch parthed pobl sy'n mynychu ein swyddfeydd. Mewn achosion o'r fath, os na fyddwch yn ein darparu â'r wybodaeth hon, mae'n bosibl y gwrthodir mynediad i chi i'n hadeilad.
Bodolaeth system wedi'i hawtomeiddio ar gyfer gwneud penderfyniadau, gan gynnwys proffilio a gwybodaeth am sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, yr arwyddocâd a'r deilliannau.	Dim

Pobl sy'n arfer hawl statudol	
Diben y prosesu	Gweithredu hawl statudol yr unigolyn, er enghraifft: - hawl i gael mynediad at wybodaeth drwy ddefnyddio ein gweithdrefn cais am wybodaeth - hawl i gael mynediad at wybodaeth drwy wneud cais am fynediad at bwnc - hawl i gael eich anghofio - hawl i gywiro camgymeriad - hawl i gyfyngu ar brosesu
Sail gyfreithiol y prosesu	**GDPR Erthygl 6(1)(c)** Cydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol
Categorïau o ddata personol a gesglir neu a brosesir	Enw Cyfeiriad personol Cyfeiriad e-bost personol Rhif ffôn Cyfeiriad e-bost busnes Ffurf o adnabyddiaeth (lle bo angen)
Unrhyw unigolyn neu gategorïau o unigolion sy'n derbyn y data personol	Byddwn ond yn rhannu eich data lle mae'n ofynnol i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith, neu gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.
Manylion trosglwyddiadau i drydedd gwlad a mesurau diogelwch	Dim
Ffynhonnell y data personol	Darperir gan yr unigolyn.
Cyfnod cadw	Hyd at 3 blynedd ar ôl cau'r cais.
P'un a yw darparu data personol yn rhan o ofyniad neu rwymedigaeth statudol neu gytundebol, a deilliannau posibl yn sgil methu â darparu'r data personol	Mae darparu data yn rhan o ofyniad statudol. Os na fyddwch yn ein darparu â'ch data, mae'n bosibl na fyddwn yn gallu rhoi'r wybodaeth rydych chi'n gofyn amdani i chi, oni bai ei bod eisoes ar gael yn gyhoeddus.
Bodolaeth system wedi'i hawtomeiddio ar gyfer gwneud penderfyniadau, gan gynnwys proffilio a gwybodaeth am sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, yr arwyddocâd a'r deilliannau.	Dim.

Ein cwsmeriaid	
Diben y prosesu	Galluogi ASA i gynnal gwasanaethau a darparu gwybodaeth yn effeithiol.
Sail gyfreithiol y prosesu	**GDPR Erthygl 6(1)(b)** gweithredu contract
Categorïau o ddata personol a gesglir neu a brosesir	Enw E-bost personol E-bost busnes Rhif ffôn
Unrhyw unigolyn neu gategorïau o unigolion sy'n derbyn y data personol	Os ydych wedi rhoi eich caniatâd i ni, byddwn yn rhannu eich manylion cyswllt gyda'n his-gwmni masnachu, *QAA Enterprises Ltd.* Mae ASA yn defnyddio *Mailchimp* i gynnal cyfathrebiadau drwy e-post, a bydd yn rhannu cyfeiriadau e-bost y derbynwyr gyda *Mailchimp*.
Manylion trosglwyddiadau i drydedd gwlad a mesurau diogelwch	Rydym yn **cyfathrebu drwy e-bost** gan ddefnyddio *Mailchimp*, gwasanaeth a ddarperir gan *The Rocket Science Group LLC*, cwmni wedi'i leoli yn Unol Daleithiau America. Pan fyddwch chi'n cofrestru i dderbyn Newyddion ASA neu ein Cylchlythyr Gwella

	Ansawdd, mae'n bosibl y trosglwyddir eich manylion cyswllt i *Mailchimp* yn UDA. Darllenwch Telerau preifatrwydd Mailchimp.
Ffynhonnell y data personol	Darperir gan yr unigolyn neu gan ei gynrychiolydd awdurdodedig
Cyfnod cadw	6 blynedd ar ôl cwblhau'r contract
P'un a yw darparu data personol yn rhan o ofyniad neu rwymedigaeth statudol neu gytundebol, a deilliannau posibl yn sgil methu â darparu'r data personol	Gall darparu gwybodaeth bersonol fod yn rhan o ofyniad cytundebol, os ydych chi'n ymweld â'n swyddfeydd ar ran cyflenwr. Gall peidio â'n darparu ni â'ch gwybodaeth arwain at wrthod mynediad i'n hadeilad.
Bodolaeth system wedi'i hawtomeiddio ar gyfer gwneud penderfyniadau, gan gynnwys proffilio a gwybodaeth am sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, yr arwyddocâd a'r deilliannau.	Dim

Ein cydweithwyr	
Diben y prosesu	Cyflawni ein contractau cyflogaeth gyda chi, drwy sicrhau eich bod yn cael eich talu'n gywir ac ar amser. Galluogi rhannu adnoddau gyda *QAA Enterprises*, a rhwng cwmnïau yng ngrŵp M5 ac unrhyw un a allai fod ar secondiad i sefydliadau eraill.
Sail gyfreithiol y prosesu	**GDPR Erthygl 6(1)(b)** cyflawni contract **GDPR Erthygl 9(2)(b)** rhwymedigaethau cyfreithiol parthed cyflogaeth, nawdd cymdeithasol a diogelu cymdeithasol (**Data Categori Arbennig yn unig**)
Categorïau o ddata personol a gesglir neu a brosesir	Enw Cyfeiriad personol gan gynnwys cod post Rhif ffôn personol Teitl eich swydd Cyfeiriad e-bost personol Dyddiad geni Rhif Yswiriant Gwladol Cod treth Cyfansymiau'r flwyddyn dreth hyd yma Manylion pensiwn Manylion cyfrif banc (cod didoli, rhif cyfrif, enw'r cyfrif, cyfeirnod cymdeithas adeiladu, cyfeirnod *autopay*) Manylion talebau gofal plant Manylion buddion cwmni y mae gennych hawl iddynt Unrhyw wybodaeth sy'n gysylltiedig â chyflog Prawf adnabyddiaeth Hanes cyflogaeth a phrofiad proffesiynol Patrwm gweithio Hanes addysg Hanes absenoldeb Curricula vitae Hawl i weithio / astudio Cymhwysedd iaith Manylion pasbort Manylion trwydded yrru Manylion perthynas agosaf

	Gwybodaeth ychwanegol am aelodau'r teulu ar gyfer *Benenden* gan gynnwys enw, dyddiad geni, cyfeiriad **Data Categori Arbennig** Data personol yn datgelu tarddiad hiliol neu ethnig Data personol yn datgelu barn wleidyddol Data personol yn datgelu credoau crefyddol neu athronyddol Data personol yn datgelu aelodaeth undeb llafur; Data genetig Data biometrig (lle y'i defnyddir at ddibenion adnabyddiaeth) Data yn ymwneud ag iechyd Data yn ymwneud â bywyd rhywiol unigolyn Data ynghylch cyfeiriadedd rhywiol unigolyn.
Unrhyw unigolyn neu gategorïau o unigolion sy'n derbyn y data personol	**Prosesydd y Data** Hazlewoods LLP Staverton Court Staverton Cheltenham Swydd Gaerloyw GL51 0UX Mae gan ASA gytundeb ar waith gyda Hazlewoods sy'n cynnwys darpariaethau ar gyfer diogelu eich data personol. Mae mwy o wybodaeth am sut mae Hazlewoods yn prosesu data personol i'w gweld yn eu Hysbysiad Preifatrwydd: www.hazlewoods.co.uk/Privacy-Policy.aspx Sylwch ein bod wedi gwahardd Hazlewoods yn benodol rhag defnyddio'ch data at unrhyw ddiben heblaw'r pwrpas penodedig o sicrhau bod eich manylion cyflogres yn cael eu prosesu, a bod eich cyflog yn cael ei dalu. Ni chysylltir â chi at ddibenion marchnata. **Is-broseswyr Data** Cyfrifiaduron STAR Cwmni Cyfrifiaduron STAR sy'n darparu'r feddalwedd ar gyfer y gyflogres y mae Hazlewoods LLP yn ei defnyddio i brosesu'ch data personol. Dim ond os bydd Hazlewoods yn cael problem gyda'r gronfa ddata y rhoddir mynediad i STAR i'ch data personol, ac mae'n ofynnol iddynt ganiatáu mynediad er mwyn datrys hyn. Gellir dod o hyd i wybodaeth am sut mae Cyfrifiaduron STAR yn prosesu gwybodaeth bersonol yn eu Hysbysiad Preifatrwydd: www.payroll-professional.co.uk/privacy-policy.html *Pay Dashboard* *Pay Dashboard* yw'r platfform y mae Hazlewoods yn ei ddefnyddio i ddosbarthu taflenni cyflog. Bydd gan *Pay Dashboard* fynediad i'ch gwybodaeth bersonol, ond mae contract rhwymol yn bodoli rhwng Hazlewoods a *Pay Dashboard* sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt brosesu'ch data personol yn gyfreithlon, a'i gadw'n ddiogel.

	Gellir dod o hyd i wybodaeth am sut mae *Pay Dashboard* yn prosesu gwybodaeth bersonol yn eu Hysbysiad Preifatrwydd: www.paydashboard.com/privacy *Corvid Paygate* *Corvid Paygate* yw'r feddalwedd a ddefnyddir gan Hazlewoods i wneud trafodion BACS ar ran cleientiaid (fel ASA). Rhennir manylion personol gan gynnwys eich enw, manylion eich cyfrif a swm y cyflog gyda *Corvid Paygate*, ond ni ddefnyddir eich gwybodaeth bersonol mewn unrhyw ffordd arall heblaw am wneud y trosglwyddiad banc angenrheidiol. Mae contract rhwymol yn bodoli rhwng Hazlewoods a *Corvid Paygate* sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt brosesu'ch data personol yn gyfreithlon, a'i gadw'n ddiogel. Gellir dod o hyd i wybodaeth am sut mae *Corvid Paygate* yn prosesu gwybodaeth bersonol yn eu Hysbysiad Preifatrwydd: www.corvid-paygate.com/privacy-statement/ Rhennir data hefyd gyda'r canlynol: Swyddfa Refeniw a Thollau Trefniadau Pensiwn Prifysgol Llundain (SAUL) a Chynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS) - Darparwyr pensiwn PS Financials - System gyllid Concur - System brosesu treuliau PCS - Undeb llafur COPE - Darparydd iechyd galwedigaethol Shakespeare Martineau LLP - Cynghorwyr cyfreithiol Aelodau Jisc a HESA o Grŵp M5 Remedyforce - System Gwasanaeth Desg Cezanne HR - System AD iHASCO - Darparydd hyfforddiant ar-lein High Speed Training - Darparydd hyfforddiant ar-lein Benenden - Darparydd Gofal Iechyd i Weithwyr Eventsforce - Darparydd meddalwedd rheoli digwyddiadau Gallagher - Darparydd Polisi Yswiriant Advance HE - dilysu cymhwyster adolygwyr Posturite - darparydd cyfarpar ergonomig DPD - cyflenwr gwasanaethau negesydd FedEx. - cyflenwr gwasanaethau negesydd. Ym mhob achos, cyfyngir yr hyn a gaiff ei rannu i'r wybodaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni swyddogaeth.
Manylion trosglwyddiadau i wledydd y tu allan i'r UE ac amddiffyniadau	Does dim yn berthnasol.
Ffynhonnell y data personol	Darparwyd gennych chi i'r adran AD a / neu dîm cyllid ASA Darparwyd gennych chi i *Pay Dashboard* wrth greu cyfrif.
Cyfnod cadw	Chwe blynedd o ddyddiad gorffen cyflogaeth neu gontract yn achos gweithwyr a chontractwyr.

	Chwe mis o'r penderfyniad recriwtio yn achos ymgeiswyr aflwyddiannus. Amhenodol yn achos cyfarwyddwyr cwmni.
P'un a yw darparu data personol yn rhan o ofyniad neu rwymedigaeth statudol neu gytundebol, a deilliannau posibl yn sgil methu â darparu'r data personol	Mae prosesu'n angenrheidiol fel rhan o ofyniad statudol. Os na fyddwch yn darparu eich data personol i ni, mae'n bosib na fyddwn yn gallu cyflawni ein cyfrifoldebau fel cyflogwyr. Mae prosesu'n angenrheidiol fel rhan o ofyniad cytundebol. Os na fyddwch yn darparu eich data personol i ni, mae'n bosib na fyddwn yn gallu cyflawni ein cyfrifoldebau cytundebol i chi.
System wedi'i hawtomeiddio ar gyfer gwneud penderfyniadau	Does dim yn berthnasol.

Data personol a gesglir fel rhan o'n dyletswyddau statudol neu gyfrifoldebau rheoliadol	
Diben y prosesu	Diogelu safonau ac ansawdd addysg uwch y DU lle bynnag y'i darperir ledled y byd
Sail gyfreithiol y prosesu	**GDPR Erthygl 6(1)(e)** Buddiannau cyhoeddus neu weithredu awdurdod swyddogol **GDPR Erthygl 6(1)(f)** Buddiannau cyfreithlon Mae prosesu yn angenrheidiol at ddibenion buddiannau cyfreithlon ASA o ran safonau a sicrhau ansawdd, ac ar gyfer cyflawni ein dyletswyddau o dan Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 Mae'n bosib y bydd angen prosesu at ddibenion atal twyll.
Categorïau o ddata personol a gesglir neu a brosesir	Enw Cyfeiriad e-bost personol Rhif ffôn Cyfeiriad E-bost busnes Teitl eich swydd Hanes cyflogaeth a phrofiad proffesiynol Gwybodaeth am bresenoldeb Graddau academaidd Cymhwysedd iaith Hawl i weithio / astudio **Data Categori Arbennig** Cenedligrwydd Ethnigrwydd Gwybodaeth am anabledd
Unrhyw unigolyn neu gategorïau o unigolion sy'n derbyn y data personol	Mae'n bosibl y byddwn yn rhannu gwybodaeth a gafwyd yn ystod ein hadolygiad neu weithgaredd arall gyda chyrff eraill, gan gynnwys: • yr Adran Addysg • y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr • y Swyddfa i Fyfyrwyr • yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch • Cyngor Cyllido'r Alban • Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru • Adran Addysg Gogledd Iwerddon

	Ni chaiff unrhyw wybodaeth bersonol a rennir yn y cyd-destun hwn ond ei rhannu er mwyn gweithredu bwriad y rhannu. Fel arfer, mae cytundeb rhannu gwybodaeth neu gytundeb i beidio â datgelu yn perthyn i rannu gwybodaeth.
Manylion trosglwyddiadau i drydedd gwlad a mesurau diogelwch	Ddim yn berthnasol
Ffynhonnell y data personol	Wedi'i ddarparu gan destun y data neu eu cynrychiolydd awdurdodedig Casglwyd yn ystod Adolygiad ASA.
Cyfnod cadw	Mae unrhyw wybodaeth bersonol a gesglir yn ystod y gweithgareddau hyn yn cael ei dileu a/neu ei dinistrio'n ddiogel 3 mis ar ôl cyhoeddi'r adroddiad adolygu y mae'n perthyn iddo.
P'un a yw darparu data personol yn rhan o ofyniad neu rwymedigaeth statudol neu gytundebol, a deilliannau posibl yn sgil methu â darparu'r data personol	Mae prosesu'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni ein dyletswyddau statudol a rheoliadol. Mae methu â darparu data yn peryglu gallu'r ASA i gyflawni'r adolygiad angenrheidiol.
Bodolaeth system wedi'i hawtomeiddio ar gyfer gwneud penderfyniadau, gan gynnwys proffilio a gwybodaeth am sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, yr arwyddocâd a'r canlyniadau.	Dim

Data personol a gesglir fel rhan o'n cyfrifoldebau statudol a rheoleiddiol ar ran Dysgwyr sydd wedi cofrestru ar gyfer Diploma Mynediad i Addysg Uwch	
Diben y prosesu	Monitro cofrestriad, cyflawniad a dyfarniadau dysgwyr ar draws rhaglenni Mynediad i Addysg Uwch cymeradwy. Monitro llwyddiant strategaethau Asiantaethau Dilysu Mynediad wrth hyrwyddo cydraddoldeb cyfle rhwng pobl o wahanol gefndiroedd ethnig neu hiliol, neu wahanol gyflwr o ran iechyd corfforol neu feddyliol. Cyfrannu at gyhoeddiadau blynyddol ASA ar gyfranogiad a chyflawniad ar gyrsiau Mynediad i Addysg Uwch. Mae'n bosibl y bydd angen prosesu at ddibenion atal twyll.
Sail gyfreithiol y prosesu	**GDPR Erthygl 6(1)(e)** Buddiannau cyhoeddus neu weithredu awdurdod swyddogol
Categorïau o ddata personol a gesglir neu a brosesir	Dyddiad geni Oedran Rhif Dysgwr Unigryw Cyfeirnod Dysgwr Cod post Cyraeddiadau hyd yma Gwybodaeth am farciau Trawsgrifiad Gwybodaeth am gymwysterau Cyrchfan Ffynhonnell cyllido / statws cyllido Statws o ran budd-daliadau Statws cyflogaeth / cyflogaeth flaenorol Cymhwysedd iaith **Data Categori Arbennig** Ethnigrwydd Rhywedd

	Gwybodaeth am anabledd Gwybodaeth am Anhawster Dysgu
Unrhyw unigolyn neu gategorïau o unigolion sy'n derbyn y data personol	Ddim yn berthnasol
Manylion trosglwyddiadau i drydedd gwlad a mesurau diogelwch	Ddim yn berthnasol
Ffynhonnell y data personol	Darparwyd gan Asiantaeth Cyllido Addysg a Sgiliau, Adran Addysg Asiantaethau Dilysu Mynediad a drwyddedir gan ASA Darparwyr Addysg Uwch sydd wedi cofrestru ar Gofrestr Darparwyr Addysg y DU.
Cyfnod cadw	Dim mwy na 12 mis o'i dderbyn, neu ar ôl cwblhau'r pwrpas.
P'un a yw darparu data personol yn rhan o ofyniad neu rwymedigaeth statudol neu gytundebol, a deilliannau posibl yn sgil methu â darparu'r data personol	Mae angen prosesu ar gyfer cyflawni ein dyletswyddau statudol a rheoliadol. Mae methu â darparu data'n amharu ar allu QAA i gwblhau'r adolygiad angenrheidiol.
Bodolaeth system wedi'i hawtomeiddio ar gyfer gwneud penderfyniadau, gan gynnwys proffilio a gwybodaeth am sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, yr arwyddocâd a'r canlyniadau.	Dim

Arfer eich hawliau

Os yw ASA yn prosesu gwybodaeth bersonol amdanoch chi, mae gennych chi'r **hawl i gael mynediad** at y wybodaeth honno, ac i ofyn am wybodaeth ynghylch:

- pa ddata personol sydd gennym amdanoch chi
- dibenion y prosesu
- y categorïau o ddata personol dan sylw
- y sawl y mae'r data personol wedi neu'n mynd i gael ei ddatgelu iddynt
- am ba hyd yr ydym yn bwriadu storio eich data personol
- os na chasglwyd y data yn uniongyrchol gennych chi, gwybodaeth am y ffynhonnell.

Mewn rhai achosion, os ydych chi'n credu ein bod ni'n cadw unrhyw ddata anghyflawn neu anghywir amdanoch chi, mae gennych chi'r **hawl i ofyn i ni gywiro a / neu gwblhau'r wybodaeth,** a byddwn yn gwneud pob ymdrech i wneud hynny cyn gynted â phosibl; oni bai bod rheswm dilys dros beidio â gwneud hynny, a byddwn yn eich hysbysu bryd hynny.

Mae hefyd yn bosibl y bydd gennych chi'r **hawl i ofyn am ddileu** eich data personol neu'r **hawl i gyfyngu ar brosesu** (lle bo hynny'n berthnasol) yn unol â'r gyfraith ar ddiogelu data; yn ogystal â gwrthwynebu unrhyw farchnata uniongyrchol gennym ni. Lle bo hynny'n berthnasol, mae gennych hawl i gael eich data wedi'i gludo a'r hawl i gael eich hysbysu am unrhyw system wedi'i hawtomeiddio ar gyfer gwneud penderfyniadau y gallwn ei defnyddio.

Os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau hyn, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â ni:

Drwy e-bost: governance@qaa.ac.uk
Dros y ffôn: 01452 557000.
Drwy'r post: Governance Team, QAA, Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB

Os derbyniwn gais gennych i arfer unrhyw un o'r hawliau uchod, gallwn ofyn i chi gadarnhau pwy ydych chi cyn gweithredu ar y cais; mae hyn er mwyn sicrhau bod eich data yn cael ei amddiffyn a'i gadw'n ddiogel.

Prosesu ar gyfer dibenion cyfreithlon a chyda'ch caniatâd

Fel y nodwyd yn yr adran ar **'Sut rydyn ni'n defnyddio eich data personol '** o'r hysbysiad hwn, rydym weithiau'n prosesu eich gwybodaeth bersonol ar sail gyfreithiol. Lle mai dyma yw'r achos, byddwn yn sicrhau ein bod wedi pwyso a mesur eich buddiannau ac unrhyw risg a berir i chi yn erbyn ein buddiannau ein hunain; gan sicrhau eu bod yn gymesur ac yn briodol.

Pan fyddwch wedi cydsynio i ni ddefnyddio'ch manylion at bwrpas penodol, byddwn yn cadw data o'r fath nes i chi ein hysbysu fel arall a / neu dynnu'ch caniatâd yn ôl.

Prosesu Data Categori Arbennig

Oherwydd natur ein cyfrifoldebau a'n dyletswyddau statudol, mae'n bosibl y bydd angen i ni weithiau brosesu gwybodaeth bersonol sensitif (a elwir yn ddata categori arbennig) amdanoch chi. Gall hyn fod at ddibenion asesu effeithiolrwydd polisïau a gweithdrefnau'r darparwyr Addysg Uwch yr ydym yn eu hadolygu, neu i'n galluogi i ymchwilio i gwynion neu bryderon, ac mewn perthynas â'n gwaith Mynediad at AU ar gyfer dysgwyr sydd wedi'u cofrestru ar gyfer Diploma Mynediad at Addysg Uwch.

Pan fyddwn yn casglu gwybodaeth o'r fath, ni fyddwn ond yn gofyn ac yn prosesu cyn lleied ag sy'n angenrheidiol at y diben penodedig, a byddwn yn dynodi sail gyfreithiol ar gyfer gwneud hynny.

Yn achos y rhai sy'n gyflogedig gan ASA, er mwyn cyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol a statudol, mae'n ofynnol i ni brosesu a sicrhau bod Hazlewoods LLP ac unrhyw is-brosesydd penodedig (fel y nodwyd uchod) yn prosesu data categori arbennig amdanoch chi, sef eich rhywedd a manylion am eich cenedligrwydd. Dim ond cyn lleied o ddata ag sy'n ofynnol at y dibenion hyn yr ydym ni a phroseswyr penodedig yn ei gasglu a'i brosesu.

Cyflwyno cwyn

Nid yw ASA ond yn prosesu eich gwybodaeth bersonol yn unol â'r hysbysiad preifatrwydd hwn, ac yn unol â'r deddfau diogelu data perthnasol. Os ydych chi, serch hynny, am godi cwyn ynglŷn â phrosesu eich data personol neu os ydych yn anfodlon â'r ffordd yr ydym wedi trin eich gwybodaeth, mae gennych hawl i gyflwyno cwyn i'r awdurdod goruchwylio. Yn y lle cyntaf, dylid cyfeirio cwynion at:

Cyfarwyddwr Cyllid,
ASA
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB
01452 557000.
Governance@qaa.ac.uk

Os ydych yn dal i fod yn bryderus na chafodd eich gwybodaeth ei thrin fel y disgrifiwyd, gallwch godi'ch cwyn gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth,
Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Caer, SK9 5AF
0303 123 1113
https://ico.org.uk/concerns/handling

Y defnydd o gwcis gan wefannau ASA

Ffeiliau testun bach yw cwcis, sy'n cael eu gosod ar eich cyfrifiadur gan wefannau y byddwch chi'n ymweld â nhw. Fe'u defnyddir yn helaeth er mwyn gwneud i wefannau weithio, i gofio eich gosodiadau a'ch dewisiadau unigol, ac i fesur sut rydych chi'n defnyddio gwefannau er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu'ch anghenion.

Nid ydym yn defnyddio cwcis i adnabod unigolion nac i gasglu data personol. Rydym ond yn defnyddio cwcis er mwyn gwneud i'n gwefannau weithio'n well.

Mae'r rhan fwyaf o borwyr gwe yn caniatáu rhywfaint o reolaeth ar gwcis drwy osodiadau'r porwr, ac rydych chi'n gallu rheoli a dileu cwcis o wefannau penodol.

I ddarganfod mwy am gwcis, gan gynnwys sut i weld pa gwcis sydd wedi'u gosod gan y gwefannau rydych chi'n ymweld â nhw, a sut i'w rheoli a'u dileu, ewch i All About Cookies.

Mae'r tabl isod yn esbonio'r cwcis rydyn ni'n eu defnyddio ar bob gwefan a pham.

www.qaa.ac.uk

Cwci	**Enw**	**Diben**	**Mwy o wybodaeth**
Google Analytics	_utma _utmb _utmc _utmz	Defnyddir y cwcis hyn i gasglu gwybodaeth am sut mae ymwelwyr yn defnyddio ein gwefan. Defnyddir y wybodaeth hon i wella gwefannau ASA ac i sicrhau eu bod yn ateb eich anghenion. Cesglir yr holl ddata ar ffurf anhysbys ac mae'n cynnwys gwybodaeth fel nifer yr ymwelwyr â'n gwefannau a'r tudalennau y maent yn ymweld â nhw tra'u bod ar ein gwefannau.	Trosolwg o breifatrwydd yn Google Optio allan o Google Analytics
Cwcis Google	GAPS khcookie NIDS PREF VISITOR_INFO1_LIVE YSC	Rydym yn defnyddio'r chwaraewr fideo *YouTube* a *Google Maps* ar ein gwefan. Cwcis yw'r rhain a osodir gan Google i storio'ch dewisiadau defnyddiwr.	Trosolwg o breifatrwydd yn Google
BrowseAloud	Browsealoudcountry country	Rydym yn tanysgrifio i wasanaeth o'r enw *BrowseAloud*, sy'n caniatáu i'r rhai sy'n ymweld â'n gwefan i ddefnyddio bar-offer *BrowseAloud* am ddim.	Gwefan BrowseAloud
Standard ASP.NET cookie	ASP.NET_SessionId	Caiff ei greu pan ddefnyddir sesiwn. Daw i ben pan fydd y porwr yn cau.	Ynglŷn â Chwcis: Beth yw pwrpas cwci sesiwn?

www.accesstohe.ac.uk a ava.accesstohe.ac.uk

Cwci	Enw	Diben	Mwy o wybodaeth
Derbyn cwcis	*acceptcookies*	Pan fyddwch yn ymweld â'n gwefan am y tro cyntaf, fe welwch neges ar frig eich sgrin yn egluro ein bod yn defnyddio cwcis. Os cliciwch i dderbyn a chuddio'r neges, mae cwci yn cael ei storio fel na fyddwch yn gweld y neges yn ymddangos eto pan fyddwch yn ymweld â'r wefan. Mae wedi'i osod i ddod i ben ar ôl 100 mlynedd.	
Google Analytics	_utma _utmb _utmc _utmz	Defnyddir y cwcis hyn i gasglu gwybodaeth am sut mae ymwelwyr yn defnyddio ein gwefan. Defnyddir y wybodaeth hon i wella gwefannau ASA ac i sicrhau eu bod yn ateb eich anghenion. Cesglir yr holl ddata ar ffurf anhysbys ac mae'n cynnwys gwybodaeth fel nifer yr ymwelwyr â'n gwefannau a'r tudalennau y maent yn ymweld â nhw tra'u bod ar ein gwefannau.	Trosolwg o breifatrwydd yn Google Optio allan o Google Analytics
Cwcis Google	GAPS khcookie NIDS PREF VISITOR_INFO1_LIVE YSC	Rydym yn defnyddio'r chwaraewr fideo *YouTube* a *Google Maps* ar ein gwefan. Cwcis yw'r rhain a osodir gan Google i storio'ch dewisiadau defnyddiwr.	Trosolwg o breifatrwydd yn Google
Cwci sesiwn		Mae'n storio maint y ffont, os ydych wedi dewis un o'r opsiynau a ddarperir yn y ddewislen hygyrchedd. Mae wedi'i osod i ddod i ben ar ôl 20 munud.	Ynglŷn â Chwcis: Beth yw pwrpas cwci sesiwn?
Cwci sesiwn	homepage_imageno	Mae'r cwci hwn yn adnewyddu'r ddelwedd sy'n ymddangos yn y gornel dde ar frig tudalen hafan Mynediad i AU. Mae at ddibenion dylunio yn unig. Mae wedi'i osod i ddod i ben ar ôl 40 munud.	Ynglŷn â Chwcis: Beth yw pwrpas cwci sesiwn?
Cwci sesiwn	hygyrchedd	Mae'n storio'r gosodiad cyferbyniad rydych chi wedi'i ddewis wrth ddefnyddio'r wefan. Mae wedi'i osod i ddod i ben ar ôl 20 munud.	Ynglŷn â Chwcis: Beth yw pwrpas cwci sesiwn?
Cwci sesiwn	LoggedIn	Mae'n storio eich cyfeiriad e-bost os ydych chi wedi mewngofnodi i'r ardal	Ynglŷn â Chwcis: Beth yw

		AVA, fel ei fod yn arddangos yn y brif ddewislen drwy gydol eich ymweliad. Mae wedi'i osod i ddod i ben ar ôl 30 munud neu ei glirio pan fyddwch chi'n allgofnodi.	pwrpas cwci sesiwn?
Standard ASP.NET cookie	ASPXAUTH	Caiff ei greu a'i osod pan fyddwch chi'n mewngofnodi i'r ardal AVA. Daw i ben pan fydd y porwr yn cau.	Ynglŷn â Chwcis: Beth yw pwrpas cwci sesiwn?
Standard ASP.NET cookie	ASP.NET_SessionId	Caiff ei greu pan ddefnyddir sesiwn. Daw i ben pan fydd y porwr yn cau.	Ynglŷn â Chwcis: Beth yw pwrpas cwci sesiwn?
Cwci sesiwn	ASPSESSIONID	Mae cwcis sesiwn yn storio gwybodaeth am ddewisiadau penodol rydych chi wedi'u gwneud yn ystod eich ymweliad â'r wefan - er enghraifft eich dewis iaith os ydych chi wedi dewis tudalen Gymraeg. Daw'r cwcis hyn i ben pan fyddwch chi'n cau'ch porwr.	Ynglŷn â Chwcis: Beth yw pwrpas cwci sesiwn?

heer.qaa.ac.uk

Cwci	**Enw**	**Diben**	**Mwy o wybodaeth**
Google Analytics	_utma _utmb _utmc _utmz	Defnyddir y cwcis hyn i gasglu gwybodaeth am sut mae ymwelwyr yn defnyddio ein gwefan. Defnyddir y wybodaeth hon i wella gwefannau ASA ac i sicrhau eu bod yn ateb eich anghenion. Cesglir yr holl ddata ar ffurf anhysbys ac mae'n cynnwys gwybodaeth fel nifer yr ymwelwyr â'n gwefannau a'r tudalennau y maent yn ymweld â nhw tra'u bod ar ein gwefannau.	Trosolwg o breifatrwydd yn Google Optio allan o Google Analytics
Standard ASP.NET cookie	ASPXAUTH	Caiff ei greu a'i osod pan fyddwch chi'n mewngofnodi i'r ardal AVA. Daw i ben pan fydd y porwr yn cau.	Ynglŷn â Chwcis: Beth yw pwrpas cwci sesiwn?
Standard ASP.NET cookie	ASP.NET_SessionId	Caiff ei greu pan ddefnyddir sesiwn. Daw i ben pan fydd y porwr yn cau.	Ynglŷn â Chwcis: Beth yw pwrpas cwci sesiwn?

Cwcis Twitter	_guestid remember_checked_on twll _twitter_sess	Mae'r cwcis hyn yn cael eu gosod gan Twitter o ganlyniad i integreiddio Twitterfeed ar ein gwefan.	Trosolwg o breifatrwydd yn Twitter

reviewextranet.qaa.ac.uk

Cwci	**Enw**	**Diben**	**Mwy o wybodaeth**
Cwci sesiwn	WSS_KeepSessionAuthenticated	Mae cwcis sesiwn yn storio gwybodaeth am ddewisiadau penodol rydych chi wedi'u gwneud yn ystod eich ymweliad â'r wefan. Mae'r cwci hwn yn eich cadw'n ddilys - neu wedi'ch mewngofnodi - drwy gydol eich ymweliad â'r wefan, fel mai dim ond unwaith y mae'n rhaid i chi fewngofnodi. Daw'r cwci hwn i ben pan fyddwch chi'n cau'ch porwr.	Ynglŷn â Chwcis: Beth yw pwrpas cwci sesiwn?
Standard ASP.NET cookie	ASP.NET_SessionId	Caiff ei greu pan ddefnyddir sesiwn. Daw i ben pan fydd y porwr yn cau.	Ynglŷn â Chwcis: Beth yw pwrpas cwci sesiwn?

Diweddarwyd ddiwethaf - Tachwedd 2020

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd mewn Addysg Uwch 2020
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 a SC037786
www.qaa.ac.uk